

## Amgueddfa Cymru

### Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau

#### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru'n cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru. Yn unol â hynny rydym yn sicrhau bod eitemau o'r casgliad yn hygyrch i bawb ac yn hwyluso'r defnydd ohonynt gan gynulleidfaedd heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

1.2 Mae gennym ddulliau cadarn o ymdrin â gofal a chadwraeth casgliadau fel bod casgliadau ar gael a bod ymwelwyr a defnyddwyr yn gallu eu gweld a chael profiad ohonynt.

#### 2. Amcanion

2.1 Nod yr Amgueddfa yw taro cydbwysedd rhwng cadwraeth hirdymor y casgliadau a darparu mynediad iddynt trwy fabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar reoli risg wrth ymdrin â gofal a chadwraeth casgliadau.

2.2 Byddwn yn gofalu am ein casgliadau ac yn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy gyflawni'r safonau uchaf o waith cadwraeth trwy ddefnyddio staff proffesiynol, cymwys a deunyddiau o ansawdd da.

2.3 Mae'r polisi hwn yn dangos sut y byddwn yn gofalu am y casgliadau gan ddefnyddio cyfuniad o gadwraeth ataliol ac ymyrrol, gyda'r nod o sicrhau cadwraeth ac ehangu mynediad.

#### 3. Diffiniadau o Ofal, Cadwraeth ac Adfer Casgliadau

3.1 Gweithgareddau amrywiol sydd â'r nod o ddiogelu casgliad yw gofal casgliadau. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys polisïau sefydliadol, diogelwch, storio, glanhau, cynnal a chadw, trin a thrafod, ymchwiliadau gwyddonol, monitro a rheolaeth amgylcheddol, arddangosfeydd a benthyciadau, cadwraeth, darparu eitemau dirprwyol a chynllunio at argyfwng (PAS 197: 2009).

3.2 Techneg ymyrrol a gyflwynir i eitem er mwyn sicrhau sefydlogrwydd cemegol a ffisegol yw cadwraeth, er mwyn estyn bywyd defnyddiol yr eitem a sicrhau ei bod yn parhau i fod ar gael. Gelwir hyn yn gadwraeth ymyrrol a chadwraeth adferol hefyd (PAS 197: 2009).

3.3 Adfer yw'r holl gamau gweithredu sy'n cael eu defnyddio'n uniongyrchol ar eitem unigol a sefydlog er mwyn helpu pobl i'w gwerthfawrogi, ei deall a'i defnyddio. Dim ond os yw'r eitem wedi colli rhywfaint o'i harwyddocâd neu swyddogaeth trwy waith addasu yn y gorffennol neu os yw hi wedi dirywio y gwneir hyn. Maent yn parchu'r deunydd gwreiddiol ac mae modd dadwneud y gwaith lle bo'n bosib. Gall camau o'r fath newid ymddangosiad yr eitem.

#### **4. Egwyddorion**

4.1 Mae gan bawb sy'n defnyddio'r casgliadau neu sy'n rheoli neu'n defnyddio'r manau lle mae'r eitemau'n cael eu storio neu eu harddangos, gyfraniad i'w wneud o ran gofal effeithiol y casgliadau.

4.2 Rydym yn cydnabod bod pob gweithgaredd sy'n cynnwys defnyddio'r casgliadau, fel trin a thrafod, cludo ac arddangos yn cynnwys elfen o risg i ddiogelwch, hirhoedledd a chyflwr pob eitem o'r casgliad.

4.3 Byddwn yn mabwysiadu dull seiliedig ar risg er mwyn nodi blaenoriaethau gofal a chadwraeth casgliadau a helpu i ddyrannu adnoddau.

4.4 Mae safonau diogelwch yn cydnabod ein sefyllfa fel amgueddfa genedlaethol a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn unol â safonau Cynllun Indemniad y Llywodraeth ar gyfer diogelwch y casgliadau.

4.5 Rhaid i wybodaeth, dealltwriaeth o'r eitem a gwybodaeth am ei chyfansoddiad fod wrth wraidd gofal a chadwraeth casgliadau. Mae cadw cofnod o'i chyflwr a thriniaeth yn allweddol i hyn, yn ogystal â chynllun gofal hirdymor.

4.6 Mae pob caffaeliad newydd a chasgliadau sy'n ein cyrraedd yn cael eu hasesu er mwyn sicrhau nad ydynt yn peri unrhyw risg i'n casgliadau cyfredol trwy eu heintio â phlâu, ac yn cael eu cadw mewn cwarantîn fel bo'r angen.

#### **5. Ystyriaethau Moesegol a Deddfwriaethol Penodol ac ati.**

5.1 Bydd yr Amgueddfa yn ymdrin â gofal a chadwraeth ei chasgliadau yn unol â *Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd* Cymdeithas yr Amgueddfeydd, *Cod Ymddygiad (2014)* y *Sefydliad Cadwraeth*, PAS 198:2012 *Manyleb ar gyfer Rheoli Amodau Amgylcheddol Casgliadau Diwylliannol* a Chanllawiau Cynllun Indemniad y Llywodraeth.

5.2 Bydd trin a thrafod, arddangos neu unrhyw waith ar eitemau peryglus yn cael eu cynnal yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

#### **6. Cadwraeth Ymyrrol**

6.1 Bydd gwaith cadwraeth yn cael ei gynllunio a'i wneud mewn ymgynghoriad â'r staff curadurol perthnasol.

6.2 Dim ond gan unigolyn â'r cymwysterau priodol, neu dan oruchwyliaeth unigolyn o'r fath y bydd gwaith cadwraeth ymyrrol yn cael ei wneud.

6.3 Bydd cadwraethwyr sy'n gweithio ar eitemau'r Amgueddfa dan gontract wedi'u hachredu'n broffesiynol lle'n bosib, a bydd pob achrediad proffesiynol yn

cael ei wirio lle bo'n berthnasol. Un o gadwraethwyr yr Amgueddfa fydd yn rheoli gwaith o'r fath.

6.4 Rhaid i'r cadwraethydd perthnasol a'r curadur ystyried a chyfiawnhau unrhyw driniaeth a allai niweidio gwerth ymchwil eitem yn y dyfodol.

6.5 Bydd triniaethau y gellir eu dadwneud yn cael eu defnyddio lle bo modd.

6.6 Dim ond deunyddiau cadwraeth profedig fydd yn cael eu defnyddio i drin casgliadau sydd wedi'u derbyn.

## **7. Cadwraeth Ataliol**

### *7.1 Darparu amodau adeilad addas*

7.1.1 Bydd yr Amgueddfa yn ceisio darparu adeiladau addas, diogel, wedi'u cynnal yn dda er mwyn storio ac arddangos ein casgliadau mewn modd sefydlog.

### *7.2 Darparu amodau amgylcheddol cynaliadwy addas*

7.2.1 Bydd yr amgylchedd yn yr ardaloedd storio ac arddangos a'r casys arddangos yn cael ei gynnal yn unol â gofynion yr eitemau ym mhob gofod.

7.2.2 Efallai y byddwn yn mesur lleithder cymharol, tymheredd, golau gweladwy, pelydriad uwchfioled a llygryddion atmosfferig fel sy'n berthnasol.

7.2.3 Os nad yw'r ardal storio neu arddangos yn cyrraedd y safonau gofynnol, bydd camau adferol yn cael eu cymryd fel y bo'n briodol ac yn ôl blaenoriaethau er mwyn lleihau'r risgiau i gadwraeth y casgliad.

7.2.4 Rhaid i'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r casgliadau, neu'n agos atynt, fod o safon addas er mwyn osgoi dirywiad neu ddifrod iddynt.

7.2.5 Byddwn yn monitro'n barhaus er mwyn canfod a gwaredu unrhyw blâu.

## **8. Trin a Thrafod a Symud**

8.1 Bydd eitemau'r casgliadau a ddefnyddir ar gyfer gwaith ymchwil, astudiaeth neu drin a thrafod yn cael eu hasesu i weld pa mor addas ydynt i'w defnyddio, a chynhelir asesiad risg fel bo'r angen.

8.2 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw un a all fod yn trin a thrafod neu symud eitem yn gwneud hynny yn unol â gweithdrefnau arferion gorau, a dan oruchwyliaeth aelod cymwys o staff yr Amgueddfa fel bo'r angen.

8.3 Efallai y bydd eitemau'n cael eu tynnu'n ôl o ddefnydd cyhoeddus os ydyn nhw mewn perygl difrifol o gael eu difrodi, yn beryglus, neu os yw eu diogelwch mewn perygl. Lle bo modd, byddwn yn hwyluso trefniadau amgen fel mynediad dan oruchwyliaeth (Gweler y *Polisi mynediad at y casgliadau a'r defnydd a wneir ohonynt*).

8.4 Cynhelir asesiad risg o bob eitem sydd i'w symud, er mwyn sicrhau bod y trefniadau a'r adnoddau cywir ar waith, er mwyn lleihau'r risg i'r eitem a'r staff.

8.5 Dylai unrhyw eitem mewn casgliad sy'n cael ei symud yn barhaol gael ei rhoi mewn amodau amgylcheddol cyfatebol neu well.

## 9. Cynllunio at Argyfwng

9.1 Byddwn yn cymryd mesurau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn gwarchod y casgliadau o ddydd i ddydd, er mwyn darparu trefniadau a chyfleusterau argyfwng os bydd unrhyw ddifrod trychinebus (fel llifogydd neu dân). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Datblygu a chynnal cynlluniau achub, gan gynnwys rhestr o flaenoriaethau achub.
- Darparu hyfforddiant priodol ar ddiogelwch ac ymateb i argyfwng.
- Darparu offer addas ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau ym mhob Amgueddfa.

## 10. Diogelwch

10.1 Byddwn yn cynnal diogelwch ffisegol yr holl eitemau yn ein casgliadau yn unol â'r safonau a gyflwynwyd gan Gynghorydd Diogelwch Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr.

10.2 Bydd ein hamodau storio ac arddangos yn darparu lefel briodol o warchodaeth a diogelwch i'r holl gasgliadau.

10.3 Byddwn yn sicrhau nad yw eitemau'n cael eu cludo heb eu pacio a'u barnu'n addas i deithio, a bod gan unrhyw un sy'n symud eitem o'r safle awdurdod llofnodedig i wneud hynny.

10.4 Byddwn yn cynnal adolygiadau rheolaidd o drefniadau storio data digidol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a bod casgliadau digidol a gwybodaeth am gasgliadau yn cael eu diogelu'n addas rhag sefyllfa lle byddai'r systemau'n rhy hen i'w defnyddio yn y dyfodol (gweler hefyd y *Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau*).

## 11. Hyfforddiant

11.1 Mae'r Amgueddfa'n ymrwmo i hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o ofal casgliadau. Trwy hyrwyddo hyn i'r gymuned ehangach o ddefnyddwyr gan

gynnwys staff, gwirfoddolwyr ac ymchwilwyr, byddant yn rhannu'r neges y bydd trin a thrafod a defnydd diogel o'r casgliadau yn eu gwarchod at y dyfodol, ac felly'n sicrhau mynediad iddynt.

11.2 Bydd yr Amgueddfa yn annog pob cadwraethydd cyflogedig i gael Achrediad Cadwraethydd-Adferwr gan y Sefydliad Cadwraeth.

11.3 Pan fydd gwaith cadwraeth yn cael ei roi dan gontract i gadwraethydd-adferwr allanol, disgwylir iddo gydymffurfio â'r Polisi hwn.